



William POWELL



Adennill Canolbarth a Gorllewin Cymru



Nodyn personol gan William Powell: “Fel y gwyddoch efallai, roeddwn yn ddfrifol wael gyda COVID-19 yn y gwanwyn. Oni bai am **sgil, ymroddiad a charedigrwydd** meddygon, nyrsys a ffisios yn ein **GIG Cymreig** gwych, yn sicr ni fyddwn wedi goroesi. Rwyf wedi fy narostwng gan y gofal a gefais. Mae'r profiad hwn wedi adnewyddu fy mhenderfyniad i roi yn ôl i'r cymunedau, y bobl a'r rhanbarth sydd wedi sefyll wrthyf.

Rhwng 2011 a 2016, cefais y fraint o wasanaethu fel Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru, ond yn 2016 fe gollon ni'r sedd o ddim ond 1600 o bleidleisiau. Un o'r pethau y bûm yn ei fwynhau fwyaf yn ystod fy nghyfnod yn y Senedd oedd dod â phobl ynghyd ac rwyf wedi parhau dros y pedair blynedd diwethaf i gynnal ac adeiladu rhwydweithiau ar draws maes dylanwad eang yn ein rhanbarth - sylfaen llwyddiant i ni yn 2021.”

Rwyf wedi gwasanaethu'r Democratiaid Rhyddfrydol ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru fel:

- **Aelod Cynulliad** dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, 2011-2016
- **Cynghorydd Sir Powys**, ers 2004 hyd heddiw (Fe'm etholwyd gyda 80% o'r bleidlais yn 2017)
- **Cynghorydd Tref Talgarth. Maer a Chadeirydd y Cyngor.**
- **Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**
- **Aelod, Pwyllgor Amgylchedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**
- **Aelod dirprwyo**, Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig.
- **Aelod, Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys**
- **Aelod, Grŵp Cynghori UE Llywodraeth Cymru**



Dros yr ugain mlynedd diwethaf rwyf wedi gwasanaethu'r blaid:

- **Llywydd Plaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** 2017-2020
- **Aelod Bwrdd Ffederal Cymru** 2020-
- **Asiant etholiad cyffredinol**, Roger Williams AS
- **Prif ymgeisydd** dros Orllewin a Chanolbarth Cymru, 2007,2011, 2016.
- **Aelod o Gyngor ALDE** 2008-2015
- **Aelod etholedig Prif Weithredwr Democratiaid Rhyddfrydol Gwyrdd**



Y tu allan i'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae gen i ddiddordebau eang ac rwyf wedi bod yn weithgar fel:

- Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Chraffu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Aelod dros Gymru ar y Bwrdd, Ffocws ar Drafnidiaeth
- Aelod o bwyllgor Cymdeithas Lloyd George
- Ymddiriedolwr, Sefydliad Bevan
- Ymddiriedolwr, PAVO



“Rhoddodd COVID-19 frwydr fy mywyd i eleni. Dim ond oherwydd **sgil, gwaith tîm ac ymroddiad** gweithwyr iechyd proffesiynol y **GIG** a oedd yn gofalu amdanaf a hefyd gefnogaeth gyson teulu a ffrindiau y goroesais i. Os yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i ennill seddi yn y Senedd yn 2021, gan gynnwys cyn berfeddwlad ryddfrydol Canolbarth a Gorllewin Cymru, bydd angen i ninnau

hefyd dynnu ar y gwersi hynny: edrych yn blwmp ac yn blaen nid yn unig ar ein llwyddiannau ond hefyd ar ein rhwystrau diweddar a gwendidau.

Mae angen i'n plaid ganolbwyntio ar greu perthnasoedd uniongyrchol gyda'r etholwyr, **gan ddangos trwy ein gweithredoedd ein bod wir yn poeni am y materion sydd bwysicaf iddynt.** Rhaid

inni ennill ymddiriedaeth trwy **ganlyniadau cadarnhaol.**

Mae angen i gymunedau o Harlech i Crughywel, o Abergwaun i Lanfair Caereinion ac o Aberystwyth i Ystradgynlais wybod ein bod ni ar eu hochr nhw. Dim ond trwy ymgolli yn ein cymunedau y gallwn wneud hyn gyda **didwylledd, caredigrwydd ac ymrwymiad hunan i wasanaethu eraill.**”



Ers 2011, rwyf wedi meithrin perthynas gref gydag Undebau'r Amaethwyr, FUW ac NFU Cymru, Sectorau Ilaeth a chig coch, ac rwyf wedi ennill ymddiriedaeth fel eiriolwr allweddol yn y diwydiant. Bydd y berthynas hir sefydlog hon yn dyngedfennol, wrth ein bod ni'n camu fewn i gyfnod ansicr ôl Brexit yma yng Nghymru.

Gyda thrafnidiaeth a chysylltedd, rwy'n falch o fod wedi brwydro'n llwyddiannus dros ffordd osgoi'r Drenewydd (agorwyd Chwefror 2019) ac ail bont Dyfi ym Machynlleth (i gael ei gwblhau yn 2022), lobiö ar y cyd â'r Cynghorydd Paul Hinge a chydweithwyr Ceredigion, dros ailagor Gorsaf Bow Street ar ôl 55 mlynedd (lle mae'r gwaith eisoes ar y gweill). Diolch i bwysau cyson gan Mark Williams AS a minnau fel

AC, gwelwyd gwelliannau mawr ar wasanaeth llinell Cambrian. Mae angen i ni gynnal y pwysau am

welliant pellach ar frys, i ailadeiladu economi Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ôl Covid-19.

Cyd-weithiais gyda chyn Gweinidog Iechyd yr Wrthblaid, Kirsty Williams AC i sicrhau dyfodol Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli, yn ogystal â diogelu Ysbytai Bronllys a Llanidloes. Gwnaethom hefyd ymgyrchu dros gydraddoldeb mewn buddsoddiad mewn iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Yn fy ardal fy hun lle rwy'n gwasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd ac Uwchradd, cynorthwya i arwain her gyfreithiol llwyddiannus yn erbyn cau Ysgol Uwchradd Gwernyfed gan Cabinet Cyngor Sir Powys yn 2015 ac ymgyrchu dros ysgol ardal newydd, Ysgol y Mynydd Du yn Talgarth, a agorodd ym mis Mai 2018.

Adennill ein Perfeddwlad Ryddfrydol

